THE SCHOOL AT THE HEART OF WALES

# CYLCHLYTHYR

6ed IONAWR 2021



## Neges i Ddisgyblion Ysgol Calon Cymru

Annwyl Ddisgyblion,

Wrth i ni ddechrau 2021 gwn y bydd gan lawer ohonoch gwestiynau am gynlluniau'r dyfodol ar gyfer eich asesiadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Roeddwn am fanteisio ar y cyfle hwn i ysgrifennu atoch i'ch sicrhau y bydd yr ysgol, yn y cyfnod ansicr hwn, yn parhau i gynllunio ar gyfer eich asesiadau a'ch cefnogi chi. Nod yr ysgol yw gwneud popeth posibl i sicrhau y byddwch yn ennill y graddau rydych yn eu haeddu eleni.

Ar hyn o bryd, byddwch yn parhau gyda dysgu cyfunol o'r cartref nes i chi ddychwelyd ar 18fed Ionawr. Mae'n bosibl iawn y gellid ymestyn hyn. Rwy'n hyderus bod yr ysgol mewn safle cryf i ymdopi ag unrhyw newidiadau a heriau, a byddwn yn

eu hwynebu gyda'n gilydd. Mae eich athrawon yn gweithio'n hynod o galed i sicrhau eich bod wedi paratoi'n dda ar gyfer yr asesiadau arfaethedig. Mae'n hanfodol eich bod yn parhau i ymrwymo i ddysgu cyfunol yn ystod y cyfnod hwn. Byddwn yn dal i osod y gwaith o bell a bydd rhai o'ch gwersi'n parhau'n 'fyw' ar 'Teams'.

Byddwn yn cael canllaw pellach ar sut olwg fydd ar asesiadau yr wythnos hon. Byddaf yn parhau i'ch diweddaru gyda threfniadau cyn gynted ag y byddant yn derfynol fel bo popeth mor glir â phosibl i chi cyn gynted â phosibl.

Cofion Cynnes,





Mr. Richard Jones
Pennaeth, Ysgol Calon Cymru